**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Ebrill 30ain, 2025 am 6.30 yh**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Cyng D. W. Hopkins | Cyng L. Wilkins | Cyng J. Tandy |
| | Cyng A. J. Evans | Cyng R. Barnes | Cyng P. H. Roberts |
| | Cyng N. C. Davies | Cyng E. W. Nicholas | Cyng E. J. Davies |
| **Yn mynychu arlein** | Cyng K. D. L. Davie | Cyng D. Thomas | Cyng A. L. Thomas |
| | Cyng L. Jones | Cyng A. W. Jones | |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng R. A. Davies | Cyng G. J. Davies | Cyng H. Davies |
| | Cyng C. R. Thomas | Cyng S. Roberts | |

**696.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**.

Derbyniwyd pedwar ymddiheuriad, oddiwrth y Cynghorwyr C. R. Thomas, S. Roberts, G. J. Davies. H. Davies a R. A. Davies

**697.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT**.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

**698.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth 26ain, 2025.

**Cynigiwyd** bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng A. J. Evans, ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng N. C. Davies, gydag un gwelliant gan y Cyng E. J. Davies, a **eiliwyd** ganddo.

- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fawrth 26ain, 2025.

**Cynigiwyd** bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng A. J. Evans, ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng J.Tandy.

- Cofnodion cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar Ebrill 16eg, 2025.

**Cynigiwyd** bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng E. W. Nicholas ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng R. Barnes.

**Derbyn y Cofnodion:**

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnig i dderbyn yr holl gofnodion, a **Chynigiwyd** hynny gan y Cyng J. Tandy ac **Eiliwyd** y cynnig gan y Cyng D. Thomas.

**699.**

## MATERION YN CODI O'R COFNODION

Roedd y Cyng D. Thomas am iddo gael ei nodi ei fod wedi canmol y Swyddog Gweinyddol am drefnu'r digwyddiad ardderchog a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Penygroes i ddathlu dyfarnu'r gwobrau cymunedol.

**700.**

## CYFRANIAD Y CYHOEDD

Dim.

**701.**

## GOHEBIAETH

**(i) Adroddiadau'r Heddlu ar Fawrth 1af, 2025**

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **6** |
| Cyffuriau | **2** |
| Lladrad arall | **2** |
| Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | **1** |

| **Penygroes, gan gynnwys y Blaenau a Chaerbryn;** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **10** |
| Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | **1** |

________________________
Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Bwrgleriaeth | **1** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **1** |

| **Saron a Chapel Hendre** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **13** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **4** |
| Cyffuriau | **2** |
| Lladrad arall | **2** |

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie | Police.uk (www.police.uk)

**702.**

**Adroddiad y Clerc 24/04/25**

**At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau:**

**(i) Saron a Chapel Hendre, Adran 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch y ddau swm, sef £22,320.00 ar gyfer darpariaeth addysg at y dyfodol yn Saron, a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili. Nid oedd unrhyw newyddion pellach i'w gofnodi.

**(b) Llwybrau Troed.**

Mae'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol yn dal i bwyso ar dîm y Cyngor Sir ynghylch y llwybrau troed canlynol ac yn bwriadu cadw'r rhain yn Adroddiad y Clerc tan eu bod wedi'u datrys.

- **Penygroes 51/34 a 51/33;** mae'r Clerc yn dal i geisio mynnu diweddariad oddiwrth y Cyngor Sir. Mae 51/33 yn cynnwys cael y tirfeddianwr i dorri'r canghennau sy'n bargodi dros y llwybr. Mae'r Clerc wedi dweud bod gennym yr hawl i gyfarwyddo'n Contractwr Llwybrau Troed i dorri'r canghennau sy'n bargodi'n uniongyrchol dros y llwybr.

Cadeirydd

- **51/51;** Mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i ddelio â hyn oherwydd bod preswylydd wedi adeiladu sail i garej ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus, ac mae preswylydd arall wedi gosod offer chwarae drosto. Bydd y Clerc yn diweddaru'r cynghorwyr yn y cyfarfod.
- Derbyniwyd grant gwerth £3,000 oddiwrth y swyddfa Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

**(c) Prosiect Parc Banc Y Ddraenen:**

Roedd y Clerc wedi cyfeirio at y manylion canlynol a gofnodwyd o Bwyllgor yr Amgylchedd:

- Erbyn hyn mae'r clawdd ar hyd y parc, ynghyd â dwy fainc plannu, wedi'u cwblhau, ac mae'r Clerc yn prisio cost gât er mwyn caniatáu mynediad o Heol Waterloo.

- Mae trafodaeth ynghylch yr ardal wyneb caled wedi'i chynnal gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, ac mae yno ardal lle nad oes digon o uwchbridd i orchuddio'r sylfaen concrit mâl; roedd y Clerc wedi cadarhau ei fod wedi cwrdd â Matthew Collinson o'r Sir i geisio cywiro hyn drwy ddefnyddio pridd a deunydd o'r safle.

- Roedd hefyd yn gweithio gyda'r cyngor i reoli ardaloedd dolydd a phrysgwydd gan gyflwyno cynlluniau torri a phlannu sensitif, ac mae'n disgwyl derbyn cynllun ffurfiol, yn amlinellu'r gwaith blynyddol, o fewn yr wythnos.

- Roedd y gwaith yn ardal y warchodfa natur wedi'i brisio gan yr ymgynghorwyr, ac yn aros am yr arian grant Adran 106. Roedd y gost tua £5,000, gyda chost blynyddol o £1,000 dros 25 mlynedd i'w osod yng ngofal Cyngor Sir Caerfyrddin, ac i'w ryddhau yn flynyddol i dalu am waith cynnal a chadw yn yr ardal i dorri'r glaswellt a thacluso. Eglurodd y Clerc ei fod wedi cwestiynu'r gost gychwynnol, ac wedi gofyn bod cynnig wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno, yn ystyried chwyddiant dros y cyfnod o 25 mlynedd. Roedd yn disgwyl derbyn y cynnig diwygiedig hwn yn ystod yr wythnos nesaf.

**(ch) Cyrtiau Tenis Llandybïe:**

Bydd y tarmac yn cael ei osod yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar Ebrill 28ain, wedi wythnos o oedi oherwydd nid oedd modd cael y pwysedd dŵr cywir i olchi'r dwst a'r mwsogl oddiar wyneb y cyrtiau. Bydd y gwaith o baentio'r wyneb yn cael ei orffen ar Fai 15fed, ar ôl rhoi amser i'r cwrt setlo.

**(d) System Wresogi yn y Pafiliwn Bowlio a Thenis:**

Disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau ym Mehefin 2025, ar yr amod bod y cais at Gronfa Fferm Wynt y Betws yn llwyddiannus.

**(dd) Prosiect Baeddu gan Gŵn:**

Mae’r Clerc wedi llwyddo i gael y South Wales Guardian i gyhoeddi datganiad i’r wasg, ac roedd hwn wedi ymddangos yn y fersiwn papur yn ogystal ag arlein.

Roedd y Clerc wedi cwrdd â phlant Ysgol Llandybïe i sôn am sbwriel a baeddu gan gŵn, ac wedi gosod cystadleuaeth iddynt gynllunio posteri ac arwyddion yn amlygu sbwriel, ac un arall ar gyfer baeddu gan gŵn.

Mae’r Clerc yn y broses o drefnu’r camerâu Teledu Cylch Cyfyng ac wedi derbyn caniatâd Clwb Rygbi Llandybïe a Chlwb Rygbi Penygroes i osod y camerâu; ein parc yn Saron fydd y trydydd safle.

Dai Nicholas – Clerc

Ebrill 24ain 2025

**703.**

**Diwrnod y Ddaear a diweddariad ynghylch Morgan Marine.**

Roedd y Clerc wedi cynnig diweddariad i ddweud bod y datganiadau i’r wasg ynghylch dathliad penblwydd Morgan Marine yn 60 oed yng nghyswllt ymgyrch y cyfryngau Diwrnod y Ddaear 2025 wedi ymddangos yn y South Wales Guardian. Tynnwyd llun o Rhidian Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Marine gyda’n Cadeirydd, y Cyng David Hopkins.
Plannwyd tair coeden gychwynnol a bydd y Clerc yn dosbarthu taenlen i’r cynghorwyr i roi iddynt gyfle i awgrymu lleoliadau plannu’r 57 coeden a ddyranwyd yn eu hardaloedd hwythau.

**704.**

**Diweddariad ynghylch Gilfach Iago.**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi derbyn diweddariad yn dweud bod y Cyngor Sir yn dal i aros am ddyddiad mynychu’r llys

**705.**

**Monitro’r Gyllideb a Materion Ariannol.**

**(i) Monitro’r gyllideb yn fisol.**

Adroddiad ariannol ar Ebrill 29ain, 2025.

**INCWM**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Praesept | 193860.00 | 0.00 | **-193860.00** |
| Ffurflen TAW (Ad-daliad | 24000.00 | 0.00 | **-24000.00** |
| Gweinyddu | 3000.00 | 3000.00 | **0.00** |
| LLog Banc | 4300.00 | 19.65 | **-4280.35** |
| Cytundebau Llogi/Grantiau/ Adran 106 | 20000.00 | 0.00 | **-20000.00** |
| **Cyfanswm** | 245160.00 | 3019.65 | **-242140.35** |

**GWARIANT**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Torri'r Glaswellt | £31,500.00 | £610.00 | **£30,890.00** |
| Cyflogau'r Staff a PAYE | £57,252.00 | £5,670.10 | **£51,581.90** |
| Gwasanaethau Swyddfa | £7,500.00 | £1,240.89 | **£6,259.11** |
| Yswiriant | £3,600.00 | £0.00 | **£3,600.00** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, adeiladau, parciau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd) | £47,495.00 | £3,712.21 | **£43,782.79** |
| Gwasanaethau a Thanysgrifiadau | £6,050.00 | £0.00 | **£6,050.00** |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £15,000.00 | £583.00 | **£14,417.00** |
| Costau Etholiad | £8,000.00 | £0.00 | **£8,000.00** |
| Adran 137 | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Goleuo | £4,000.00 | £0.00 | **£4,000.00** |
| Datblygu Cymunedol | £48,500.00 | £0.00 | **£48,500.00** |
| **Cyfanswm** | £268,897.00 | £11,816.20 | **-£257,080.80** |

**Taliadau hyd at Ebrill 29ain:**

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| K D Gardening Services, Glanhau'r Toiledau, anfoneb 0217 | 891.25 |
| Dynevor Tree Services, gwaith ar y Llwybrau Troed, anfoneb 14.03.25 | 350.00 |
| Hefin Jones, Cyfieithu'r cyfarfodydd am 3 mis, anfoneb 1094 | 255.00 |
| Martin Davies, Cyfieithu'r Cofnodion, Chwefror 2025, anfoneb 13.03.25 | 259.02 |
| Morgan & Morgan, Bocs o bapur A4, anfoneb 00093914 | 26.34 |
| Morgan & Morgan, llungopïwr, anfoneb 203123 | 3.76 |
| Lwfans Blynyddol a Threuliau, Cyng L Wilkins | 247.00 |
| Lwfans Blynyddol a Threuliau, Cyng R Barnes | 336.00 |
| EDF Electric, Pafiliwn Heol Woodfield, anfoneb 000022987291 | 22.77 |
| EDF Electric, Pafiliwn Heol Penygroes, anfoneb 000022978707 | 55.17 |
| EDF Electric, Pafiliwn Chwaraeon Saron, anfoneb 000022934706 | 40.40 |
| EDF Electric, Llifoleuadau Capel Hendre, anfoneb 000022934761 | 53.09 |
| ICO, Ffi Gwarchod Data, anfoneb 00520AF51004 | 52.00 |
| Cyflog D. Nicholas, Ebrill 2025 | 2396.77 |
| Rhent Swyddfa Neuadd yr Eglwys, Llandybïe, Ionawr 1af, 2025 hyd at Fehefin 2025 | 650.00 |
| Antur Teifi Cyf, gwasnaethau cyflogres, anfoneb 9183 | 309.60 |
| Cyflog S. Taylor, Ebrill 2025 | 624.10 |
| Avonmore Sprinkler Systems, atgyweiro'r Clwb Bowlio, anfoneb 19825 | 854.28 |
| EDF Electric, Pafiliwn Bowlio Llandybïe, anfoneb 000022925059 | 103.47 |
| Neuadd Goffa Penygroes, tâl llogi'r neuadd, anfoneb 17/04/2025 | 80.00 |
| YGP Electric, Cyfleusterau Cyhoeddus Penygroes, anfoneb 983895 | 37.19 |
| YGP Electric, Pafiliwn Penygroes, anfoneb 971235 | 111.89 |
| Cyllid y Wlad, taliad Ebrill 2025 | 2649.23 |
| YGP Electric, Sied y Grin Bowlio, anfoneb 985805 | 30.20 |
| Martin Davies, Cyfieithu Cofnodion mis Mawrth 2025, anfoneb 28.04.25 | 219.18 |
| Morgan & Morgan, Band Llydan Ffeibr misol, anfoneb 00095608 | 35.99 |
| R. Gleaves, torri glaswellt ymyl yr heol yng Ngors Ddu, anfoneb 119 | 160.00 |
| R. Gleaves, torri - Bonllwyn hyd at Lôn Parc Hendry, anfoneb 120 | 100.00 |
| K D Gardening Services, Glanhau'r toiledau yn Ebrill, anfoneb 0220 | 862.50 |

Cadeirydd

**Taliadau am anfonebau a dderbyniwyd hyd at Ebrill 24ain**

Un Llais Cymru, Aelodaeth Flynyddol, £2,300
Morgan & Morgan, Tanysgrifiad Blynyddol, £2,606.40
Cyngor Sir Caerfyrddin Etholiad Saron, £7,011,27

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR CYMUNED LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL** | | | | | |
| **Mantolen 2024-2025 o Ebrill 1af; Accounts from April 1st** | | | | | |
| | | | | | |
| **Paratowyd gan - D Nicholas** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31/04/2025** | | | | | |
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| | | | | | |
| **Dygwyd ymlaen (balans cychwynnol yn y banc)** | | | | | **£260,860.83** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£3,019.65** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£263,880.48** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£11,816.20** |
| | | | | | |
| **Balans wrth Gau'r Daenlen Gyllid** | | | | | **£252,064.28** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Taliadau/ Sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | |
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATGANIAD** | | | | | **£252,064.28** |

Dywedodd y Clerc bod taliad Praesept gwerth £64,000, sef traean o'r taliad blynyddol, wedi cyrraedd ein cyfrif ers iddo lunio'r adroddiad.

**(iii)** Diweddariad ynghylch Archwiliad Allanol 2023/24.

Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn gohebiaeth, ac roedd y falch i gofnodi bod yr Archwiliad Allanol wedi'i basio heb fod unrhyw gwestiynau wedi cael eu gofyn.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Clerc.

**(iv) Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2024-25.**

Roedd y Clerc wedi gwneud cais, a ganiatawyd gan y Cadeirydd, am oedi pasio'r cyfrifon terfynol oherwydd ei fod yn aros i dderbyn datganiad terfynol oddiwrth Gymdeithas Adeiladu NSI, cyn cwblhau'r balans terfynol, ond roedd y cyfrifon

wedi'u cwblhau erbyn hyn, ac roedd yr archwiliadau mewnol ac allanol ill dau ar waith.

**706.**

**Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, 2024/25**

Roedd y Cadeirydd wedi darllen datganiad agoriadol yr adroddiad blynyddol gan gynnwwys yr hyn a oedd wedi'i gyflawni yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, ac roedd y Clerc wedi ychwanegu ambell sylw ynghylch materion cyllidol.

Roedd y Cadeirydd wedi gofyn bod y datganiad cloi yn cael ei gofnodi yn y cofnodion;

- Erbyn hyn mae ar y Cyngor Cymuned ddyletswydd i gyhoeddi cynllun blynyddol a chynnwys cynllun gweithredu cymunedol sy'n ategu at y gwaith ar bob lefel; mae angen gwneud hyn er mwyn ateb gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 adran 40 (1), sy'n cysylltu'n uniogyrchol gydag amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol.
- Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i'r Cynghorwyr, y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol am y ffordd y maen nhw wedi ymddwyn yn ystod y cyfarfodydd, ac am yr holl waith caled sydd wedi'i gyflawni dros y flwyddyn.
- Yn olaf, hoffwn ddymuno'n dda i'r Cadeirydd newydd, ac yn cynnig fy nghefnogaeth iddo yn ystod y broses ymgyfarwyddo, wedi iddo gymryd yr awennau ar ôl ein Cyfarfod Statudol ym mis Mai.
- Diolch yn fawr, y Cyng David Hopkins, Cadeirydd.

**Cynigiwyd** gan y Cyng R. Barnes, ac **Eiliwyd** y cynnig gan y Cyng E. W. Nicholas bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

**Penderfynwyd** cyhoeddi'r adroddiad ar Wefan y Cyngor Cymuned ac ar ei hysbysfyrddau.

**707.**

**Cyllid Adran 106.**

Nid dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad oddiwrth y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol.

**708.**

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Ni chynigiwyd unrhyw beth.

Cadeirydd

**709.**

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal y Cyfarfod Statudol a Chyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Mai 28ain, 2025.

**710.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, **daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben** am 7.08 yh.

Cadeirydd